# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

## TREFNIADAU RHEOLI AR GYFER CYFLEUSTERAU HAMDDEN AWYR AGORED

## GWEITHDREFNAU GWEITHREDU

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amlinellu'r rheolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer y Cyngor, Clybiau Bowlio, Clybiau Criced, Clybiau Pêl-droed, Clybiau Rygbi a Chlybiau Athletau o ran rheoli cyfleusterau hamdden awyr agored sy'n eiddo i'r Cyngor.

### CYFRIFOLDEBAU CLYBIAU CHWARAEON

1. Bod yn gyfrifol am agor a chloi pafiliynau/ystafelloedd newid a'r gatiau/rhwystrau cysylltiedig.

2. Bod yn gyfrifol am ddiffodd/ailosod larymau diogelwch os oes rhai wedi'u darparu mewn adeiladau.

3. Rhoi gwybod am unrhyw niwed o ran yr adeiladau i Reolwyr/Goruchwylwyr Parciau'r Ardal.

4. Clybiau Bowlio – cadw'r pafiliwn bowlio mewn cyflwr glân.

5. Clybiau Bowlio – defnyddio'r matiau/jac bowlio a marcwyr y rinc sydd wedi'u darparu, a'u dychwelyd i'r ardal storio ar ôl pob defnydd.

6. Clybiau Criced, Pêl-droed, Rygbi ac Athletau – i frwsio'r ystafelloedd newid ar ôl pob defnydd, gan adael y cyfleuster mewn cyflwr glân ar gyfer y defnyddiwr nesaf.

7. Clybiau Pêl-droed – codi rhwydi gôl a gosod fflagiau cyn pob gêm, ac yna'u casglu a'u storio nhw wedi hynny.

8. Clybiau Rygbi – gosod amddiffynwyr pyst a fflagiau cyn pob gêm, ac yna'u casglu a'u storio nhw wedi hynny.

9. Clybiau Criced, Pêl-droed, Rygbi ac Athletau – gwirio'r maes chwarae a chael gwared ar unrhyw sbwriel, gwydr neu faw cŵn cyn pob gêm.

10. Clybiau Criced, Pêl-droed, Rygbi – mae angen i unrhyw glybiau sy'n defnyddio meysydd chwarae'r Ynys rhannu manylion gyda Lisa Belcher ar 01685 378113 hefyd.

11. Pob Clwb Chwaraeon – glanhau pob cegin/man cymunedol os cânt eu defnyddio.

12. Pob Clwb Chwaraeon – darparu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol.

13. Pob Clwb Chwaraeon – darparu rhestrau gemau a manylion gemau diwygiedig i Swyddfa Archebu’r Parciau yn Nhŷ Elái, Trewiliam.

14. Pob Clwb Chwaraeon – i roi gwybod i Adran Archebu'r Parciau am unrhyw gêm. Fydd meysydd chwarae ddim yn cael eu marcio na'u paratoi os nad oes gêm wedi'i harchebu.

15. Pob Clwb Chwaraeon – i beidio â defnyddio’r cyfleusterau ar gyfer unrhyw weithgaredd arall heb ganiatâd ymlaen llaw gan Adran y Parciau.

16. Pob Clwb Chwaraeon – sicrhau bod cyfleusterau hamdden awyr agored ddim yn cael eu defnyddio y tu allan i ddyddiadau'r tymor gan glybiau na'u haelodau.

17. Pob Clwb Chwaraeon - dydy'r Cyngor ddim yn ymgymryd ag arolygiadau o'r meysydd chwarae mwyach. Swyddogion y clwb a dyfarnwyr fydd yn gyfrifol nawr. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ganslo gemau mewn amgylchiadau eithriadol.

18. Pob Clwb Chwaraeon - Bydd 2 set o allweddi'n cael eu rhoi i bob clwb. Bydd angen trosglwyddo enwau deiliaid allweddi pob adeilad i Adran Archebu'r Parciau. Bydd tâl am bob set ychwanegol o allweddi y mae'n rhaid eu rhoi.

19. Pob Clwb Chwaraeon – gwnewch yn siŵr eich bod chi'n rhoi gwybod i ni am unrhyw offer trydanol sy'n dod mewn i'n hadeiladau, bod caniatâd yn cael ei roi ar gyfer hyn a bod proses profi PAT yn cael ei gweithredu ar yr offer yma'n flynyddol. Bydd methu â gwneud hyn yn arwain at gael gwared ar offer.

20. Pob Clwb Chwaraeon - rhaid i unrhyw fwyd sy'n cael ei wneud neu ei werthu ar y safle gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau Iechyd yr Amgylchedd.

21. Pob Clwb Chwaraeon – dim yfed na gwerthu alcohol heb y papurau trwyddedu priodol.

**CYFRIFOLDEBAU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

1. Gwaith trwsio adeiladau.

2. Pob gwariant yn adeiladau RhCT sydd ddim wedi'u prydlesu – trydan, nwy, dŵr, trethi ac yswiriant yr adeilad.

3. Glanhau adeiladau unwaith yr wythnos.

4. Holl waith cynnal a chadw tiroedd sy'n gysylltiedig â chyfleusterau hamdden awyr agored.

## Pawb sy'n defnyddio'r cyfleuster

Mae'r cyfleusterau wedi cael eu darparu er hwylustod i chi. Gofynnwn yn garedig i chi eu parchu. Gall methu â gwneud hyn arwain at glybiau yn derbyn dirwy am unrhyw ddifrod ac o bosib yn cael eu gwahardd rhag defnyddio'r lleoliad.

## ARDAL Y GOGLEDD

## MANYLION CYSWLLT

| DOLEN GYSWLLT | ENW | RHIF FFÔN | SYMUDOL |
|---|---|---|---|
| Rheolwr Parciau'r Ardal | David Prout | 01443 490465 | |
| Uwch Oruchwyliwr | Hywel Bebb | | |
| Goruchwyliwr yr ardal | Nigel Thomas | 01443 444620 | |
| Goruchwyliwr yr ardal | Mark Groom | | |
| Swyddfa Archebu'r Parc | Chris Mitchinson neu Julie Godwin | 01443 425569<br>01443 425652 | |
| Llinell Gymorth Dydd Llun – Dydd Gwener Tu hwnt i oriau gwaith, Penwythnosau a Gwyliau Banc | Yn gweithredu o Barc Ynysangharad | 01443 404699<br>01443 425011 | 07786 523577 |
| | | | |

## ARDAL Y DE

## MANYLION CYSWLLT

| DOLEN GYSWLLT | ENW | RHIF FFÔN | SYMUDOL |
|---|---|---|---|
| Rheolwr Parciau'r Ardal | Geraint Jenkins | 01443 233964 | |
| Uwch Oruchwyliwr | Mark Prior | 01443 233965 | |
| Goruchwyliwr yr ardal | Allan Roberts | 01443 233970 | |
| Goruchwyliwr yr ardal | Leigh Walters | 07786 523599 | |
| Swyddfa Archebu'r Parc | Chris Mitchinson neu Julie Godwin | 01443 425569/ 01443 425652 | |
| Llinell Gymorth Dydd Llun – Dydd Gwener Tu hwnt i oriau gwaith, Penwythnosau a Gwyliau Banc | Yn gweithredu o Barc Ynysangharad | 01443 404699/ 01443 425011 | 07786 523577 |
| | | | |